GORCHYMYN CYNGOR SIR BENFRO (CITY ROAD, HWLFFORDD) (GWAHARDD TRAFFIG CERBYDOL DROS DRO) 2022

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu, nid llai na saith diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig fel y gellir gwneud gwaith i osod croesfan bwrdd wedi'i godi a gwaith cysylltiedig yng nghyffiniau rhif 14 City Road.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd pob traffig cerbydol dros dro, ac eithrio cerbydau eithriedig, rhag mynd ar hyd y rhan honno o City Road, Hwlffordd o'i chyffordd â chylchfan fach Stryd yr Ysgubor/Ffordd Perrots i'r gogledd-orllewin i'w chyffordd â Highlands Avenue.

Y llwybr amgen ar gyfer traffig fydd drwy Ffordd Perrots, Thomas Parry Way, St Davids Road a City Road

Bydd mynediad i gerddwyr yn cael ei gynnal trwy gydol y cyfnod y bydd y ffordd ar gau.

Y bwriad yw y bydd y cyfyngiadau, a fydd yn cael eu dangos gan arwyddion ffyrdd priodol, yn dod i rym ddydd Iau 18 Awst 2022 ac yn parhau mewn grym am oddeutu pythefnos. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl, bydd rhywfaint o'r gwaith yn cael ei wneud gyda'r nos.

Bydd y Gorchymyn yn parhau i fod yn ddilys am uchafswm o 12 mis fel cynllun wrth gefn pe bai angen aildrefnu'r gwaith neu os bydd unrhyw amgylchiadau annisgwyl.

Dyddiedig y diwrnod hwn 3 Awst 2022

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd